***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1882

## Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 20 Gorffennaf 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

Ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru)(**1**);

Ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

Ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg 1996.

### Diwygio

**2.** Ac eithrio i'r graddau y datganwyd y byddant yn cael effaith yn Lloegr yn unig, bydd i'r diwygiadau i adrannau 354 a 580 o'r Ddeddf fel a nodwyd yng Ngorchymyn Pynciau Craidd (Diwygio) (Lloegr) 2000(**2**h), effaith yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r diwygiadau pellach a nodir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**3.** Mae'r diwygiadau pellach y cyfeirir atynt yn erthygl 2 fel a ganlyn —

(a) yn is-adran (4) fel y'i hamnewidwyd, yn lle paragraff (b) rhoddir –

"(b) in relation to schools in Wales, means a modern foreign language specified in an order of the National Assembly for Wales or, if the order so provides, any modern foreign language.", a

(b) yn is-adran (5) fel y'i hamnewidwyd ar ôl "(4)(a)" mewnosoder "or (b)".

**4.** Gwelir testun adran 354(1) i (5) o'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn y cyfeirir ato yn erthygl 2 ac fel y'i diwygir ymhellach gan y Gorchymyn hwn, yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

13 Gorffennaf 2000

(**1**) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 360 o Ddeddf Addysg 1996 a rhoddwyd ei enw cyfredol iddo gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997.

(**2**) O.S. 2000/1146.

(**3**) 1998 p.38.